



Cymorth i Ferched Cymru  
Welsh Women's Aid

**TRAIS YN ERBYN MENYWOD,  
CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS  
RHYWIOL (VAWDASV)  
GWEITHGAREDDAU ATAL I  
BLANT A PHOBL IFANC**

**Papur briffio ar ymarfer addawol ar yr hyn sy'n  
gweithio gydag atal sylfaenol**

[www.welshwomensaid.org.uk](http://www.welshwomensaid.org.uk)

## Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
2. Y broblem sydd angen i ni ei hatal	2
3. Beth yw atal?	4
4. Cyd-destun polisi a deddfwriaeth	6
5. Manteision gwasanaethau atal i blant a phobl ifanc	7
6. Pam fod angen cymorth arbenigol ar blant a phobl ifanc	8
7. Hybu a diogelu plant a phobl ifanc, o feichiogrwydd ymlaen	9
8. Atal drwy addysg	11
9. Atal yn y gymuned	13
10. Beth mae goroeswyr yn ei ddweud am waith atal i blant a phobl ifanc?	16
11. Casgliad	20

*Fel y corff ymbarél ar gyfer gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod yng Nghymru, unwaith eto hoffai Cymorth i Ferched Cymru ddiolch yn ddiffuant i leisiau plant a phobl ifanc, goroeswyr, gwasanaethau arbenigol a chyrrff eraill, a gyfrannodd at greu'r ddogfen hon.*

## **1. Cyflwyniad**

Dyma'r cyntaf mewn cyfres o *Bapurau Ataliol* ble mae is Cymorth i Ferched Cymru yn rhannu ymchwil, arloesi ac ymarfer addawol yn ymwneud â'r hyn sy'n gweithio mewn gwaith ataliol sylfaenol ym maes trais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV). Bydd y pedwar papur yn ffurfio corff o dystiolaeth a gaiff ei gylchredeg i benderfynwyr, cyllidwyr, comisiynwyr, gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod a'r sector cyhoeddus, ymhlith eraill yng Nghymru a thu hwnt.

Nod y *Papurau Ataliol* hyn yw:

- Cynyddu dealltwriaeth a gwybodaeth am VAWDASV, ei effaith, y ffaith ei fod yn fusnes i bawb – ymhlith cymunedau, busnesau, ffrindiau/teuluoedd;
- Cynyddu dealltwriaeth, a chyfleoedd i gyd-gynhyrchu, datrysiadau i gyflawni atal VAWDASV – gan gomisiynwyr, goroeswyr/plant/cymunedau;
- Cynyddu dealltwriaeth am gydraddoldeb rhyw/rhywedd, ffurfio perthynas ddiogel, gydradd, ddi-drais a'r cymorth sydd ar gael i oroeswyr;
- Cynnydd o ran hyrwyddo cydraddoldeb rhwng menywod a dynion fel modd i ddileu VAWDASV, a mabwysiadu polisiâu rhagweithiol o ddim goddefgarwch gan asiantaethau, busnesau a chymunedau.

Mae trais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn gam-drin a gaiff ei gyfeirio at fenywod a merched am eu bod yn fenywod neu'n ferched, neu a brofir yn anghymesur gan fenywod a merched fel grŵp. Mae trais yn erbyn menywod felly yn achos, ac yn ganlyniad, i anghydraddoldeb rhwng menywod a dynion, mae'n torri hawliau dynol ac yn ganlyniad i cam-drin grym a rheolaeth.

Mae trais yn erbyn menywod yn gyffredin ym mhob ardal o Gymru, fel y mae ar draws y DU a'r byd. Fodd bynnag, nid yw'n anochel. Mae modd ei atal.

Mae gofynion i ddarparu gwasanaethau ataliol mewn perthynas â VAWDASV wedi'u gosod yn glir yn Neddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn ogystal â'r bwriadau a osodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i atal cynnydd yn anghenion y rheini sydd angen gofal. Er mwyn darparu gwasanaethau ataliol effeithiol, mae angen arweiniad a hyfforddiant ar weithwyr proffesiynol i ymdrin â phob agwedd ar VAWDASV, gan gynnwys atal. Nid oes modd gorbwysleisio pwysigrwydd y gwaith hwn mewn perthynas â phlant a phobl ifanc.

Mae'r papur briffio hwn yn cynnig trosolwg o'r hyn mae 'atal' yn ei olygu mewn perthynas â phlant a VAWDASV, pwysigrwydd gwaith ataliol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc, a chodi proffil ymarfer addawol sy'n bodoli yng Nghymru.

Nod y ddogfen hon yw cynnig canllaw defnyddiol i gynorthwyo gydag integreiddio gwasanaethau ataliol VAWDASV gyda gwaith ehangach sy'n cael ei wneud yng Nghymru yn ymwneud ag iechyd a llesiant plant a phobl ifanc, a chynnig dulliau i wneud hynny drwy nodi a hyrwyddo enghreifftiau o ymarfer addawol sy'n bodoli ar draws Cymru.

Fel y corff ymbarel ar gyfer gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod yng Nghymru, unwaith eto hoffai Cymorth i Ferched Cymru ddiolch yn ddiffuant i leisiau plant a phobl ifanc, goroeswyr, gwasanaethau arbenigol a chyrff eraill, a gyfrannodd at greu'r ddogfen hon.

## **2. Y broblem sydd angen i ni ei hatal**

Mae trais yn erbyn menywod a merched, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio ar fenywod a dynion, ond yn bennaf caiff ei brofi gan fenywod a merched. Mae ymchwil yn cadarnhau hyn:

- Ar gyfartaledd, fe wyddom fod un fenyw yn cael ei lladd bob 4.5 diwrnod yng Nghymru a Lloegr gan ei phartner neu gyn-bartner.<sup>1</sup>
- Yn 2014/15 cafodd 186 o fenywod eu lladd, gyda 81 (44%) yn cael eu lladd gan bartner/cyn-bartner.<sup>2</sup>
- Yn 2016, cafodd o leiaf 124 o fenywod yn y DU eu lladd gan ddynion, neu ddyn oedd y prif un dan amheuaeth (1 fenyw yn cael ei lladd pob 2.94 diwrnod/71 awr).<sup>3</sup>

**Cam-drin domestig – plant a phobl ifanc:** Amcangyfrifir bod 750,000 o blant a phobl ifanc wedi gweld neu brofi cam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr. Gall cam-drin domestig a ddiodefir gan blant amrywio o gam-drin rhywiol a chorfforol, i reolaeth gymhellol uniongyrchol neu anuniongyrchol o fewn y cartref a thystio i bob math o gam-drin domestig. Gall y profiadau hyn gael effeithiau hirymarhous, negyddol ar blant o bob oed, gan gynnwys babanod.<sup>4</sup>

**Cam-drin domestig – beichiogrwydd<sup>5</sup> a mamolaeth gynnar:** Mae amrywiaeth o ymchwil a data'n amlygu beichiogrwydd a mamolaeth/plentyndod cynnar fel adegau pan fydd mamau a phlant yn agored i niwed, ac mewn sawl achos mae'r cam-drin yn cynyddu yn ystod beichiogrwydd: mewn ymchwil diweddar gyda goroeswyr, roedd dros chwarter y mamau'n adrodd bod y cam-drin wedi dechrau pan oeddent yn feichiog.<sup>6</sup> Dywedodd un goroeswr:

*“Unwaith i mi fod yn feichiog, yn lle bod yn dreisiol ddwywaith y flwyddyn yn fy erbyn roedd yn debycach i bob dau fis ac yna aeth gan gwaith gwaeth. Pan anwyd*

---

<sup>1</sup> Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol: 'Focus on Violent Crime and Sexual Offences data', 11 Chwefror 2016, <https://www.ons.gov.uk/file?uri=/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/compendium/focusonviolentcrimeandsexualoffences/yearendingmawrth2015/bulletintablesfocusonviolentcrimeandsexualoffencesyearendingmawrth2015/01/bulletintablesviolentcrimeandsexualoffences201415v5tcm77432690.xls>

<sup>2</sup> Ibid.

<sup>3</sup> Counting Dead Women – 2016, <https://kareningalasmith.com/2016/03/03/2016/>.

<sup>4</sup> Yr Adran Iechyd, 2002.

<sup>5</sup> Yn 2015-16, roedd 176 o fenywod a gyrchodd gwasanaethau loches arbenigol Cymorth i Ferched Cymru yn feichiog ac roedd gan 612 (35%) arall blant gyda nhw wrth geisio cymorth.

<sup>6</sup> L. Kelly, N. Sharp & R. Klein, 'Finding the Costs of Freedom', *Solace Women's Aid*, 2014.

*fy merch roedd e'n meddwl 'O dyw hi ddim yn mynd i unman, gallaf i wneud beth bynnag rwyf i am.'"<sup>7</sup>*

**Gwreigladdiad:** O'r 152 o fenywod a laddwyd yn dilyn gwahanu rhwng 1 Ionawr 2009 a 31 Rhagfyr 2015 yng Nghymru a Lloegr, roedd 8 fenyw yn feichiog pan gawsant eu lladd gan eu cyn-bartner neu gyn-briod. Roedd gan 106 o'r menywod a laddwyd ar ôl gwahanu blentyn, neu blant dan 18 oed.<sup>8</sup> Roedd menywod yn llawer mwy tebygol na dynion o gael eu lladd gan bartneriaid/cyn-bartneriaid (44% o ddiodefwyr benywaidd o'u cymharu â 6% o ddiodefwyr gwrywaidd<sup>9</sup>), ac roedd dynion yn fwy tebygol na menywod i gael eu lladd gan gyfeillion / cydnabod (32% o ddiodefwyr gwrywaidd o'u cymharu â 8% o ddiodefwyr benywaidd).<sup>10</sup> Laddwyd o leiaf 12 o fenywod gan eu partner neu gyn-bartner yng Nghymru yn 2016.<sup>11</sup>

**Anffurfio organau cenedlu benywod (FGM):** Amcangyfrifir bod tua 60,000 o ferched rhwng 0 a 14 wedi'u geni yng Nghymru a Lloegr i famau oedd yn oroeswyr FGM<sup>12</sup> a bod tua 66,000 o fenywod yng Nghymru a Lloegr yn byw gyda chanlyniadau FGM.<sup>13</sup> Yng Nghymru a Lloegr, mae dros 24,000 o ferched dan 15 oed mewn perygl o gael FGM.<sup>14</sup> Mae goroeswyr FGM yn wynebu risg uwch o gymhlethdodau yn ystod beichiogrwydd ac anawsterau geni, sy'n effeithio ar iechyd y fam a'r plentyn, ac mae ganddynt hefyd risg uwch o ddatblygu iselder ôl-enedigol ar ôl profiadau geni trawmatig, sy'n gallu effeithio'n andwyol ar les y fam a'r plentyn.<sup>15</sup> Mae FGM yn risg sylfaenol i ferched ac yn fater diogelu, ac mae angen cymorth ac ymyrryd ar oroeswyr FGM sy'n oedolion ac yn fenywod ifanc.

**Trais/cam-drin rhywiol:** Mae 31% o fenywod ifanc 18-24 oed yn adrodd iddynt brofi cam-drin rhywiol yn ystod eu plentyndod.<sup>16</sup> Mewn stryd o 100 o dai, bydd 20 o'r menywod sy'n byw yno wedi dioddef trosedd rhyw.<sup>17</sup> O 6 Ebrill 2017, daw'r hyn a elwir yn bolisi 'cymal trais'

---

<sup>7</sup> Ibid.

<sup>8</sup> D. Brennan, 'Femicide Census: profile of women killed by men', *Women's Aid*, 2016, <https://1q7dqy2unor827bjils0c4rn-wpengine.netdna-ssl.com/wp-content/uploads/2017/01/The-Femicide-Census-Jan-2017.pdf>, (cyrchwyd 20 Ionawr 2017).

<sup>9</sup> Yn 2014/15, o 186 o fenywod a laddwyd, collodd 81 o fenywod (44%) eu bywydau i bartner neu gyn-bartner. Mewn cymharieth, o 331 o ddynion, collodd 19 o ddynion (6%) eu bywydau i bartner neu gyn-bartner. – Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol, 'Focus on Violent Crime and Sexual Offences: Year ending March 2015', <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/compendium/focusonviolentcrimeandsexualoffences/yearendingmawrth2015>, (cyrchwyd 1 Mawrth 2017).

<sup>10</sup> J. Flatley, 'Homicide: Findings from analyses based on the Homicide Index recorded by the Home Office covering different aspects of homicide', ONS, 2016, <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/compendium/focusonviolentcrimeandsexualoffences/yearendingmawrth2015/chapter2homicide>, (cyrchwyd 1 Mawrth 2017).

<sup>11</sup> K. Ingala Smith, '2016', Counting Dead Women, <https://kareningalasmith.com/2016/03/03/2016/>, (cyrchwyd 03 Ionawr 2017).

<sup>12</sup> Macfarlane A, Dorkenoo E. 'Prevalence of Female Genital Mutilation in England and Wales: National and local estimates', *London: City University London and Equality Now*, 2015.

<sup>13</sup> BAWSO, 'FGM Info', BAWSO, <http://www.bawso.org.uk/assets/Uploads/FGM-Info.pdf>, (cyrchwyd 30 Ionawr 2017).

<sup>14</sup> A. Topping, 'Schools warned over FGM risk to girls during summer holidays', *The Guardian*, 25 May 2014, <https://www.theguardian.com/society/2014/may/25/schools-warned-fgm-risks-summer-holidays>, (cyrchwyd 1 Mawrth 2017).

<sup>15</sup> BAWSO, 'FGM Info', BAWSO, <http://www.bawso.org.uk/assets/Uploads/FGM-Info.pdf>, (cyrchwyd 30 Ionawr 2017).

<sup>16</sup> L. Radford, et al., 'Child abuse and neglect in the UK today', NSPCC, 2011, <https://www.nspcc.org.uk/globalassets/documents/research-reports/child-abuse-neglect-uk-today-research-report.pdf>, (cyrchwyd 13 Chwefror 2017).

<sup>17</sup> Seiliedig ar Droseddau Treisiol / Troseddau Rhyw y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol 2011/12.

Llywodraeth y DU i rym, gan roi cap ar hawl i Gredyd Treth Plant ar ddau blentyn, oni bai bod menyw yn gallu profi bod unrhyw blant dilynol yn ganlyniad i drais. Felly, os yw cyflawnwyr yn aros yn y cartref a bod menywod yn cael trydydd plentyn o ganlyniad i drais ac yn dal i fyw gyda'r cyflawnwr nid ydynt yn gymwys am yr eithriad 'cymal trais' a gadarnhawyd yn ddiweddar i gredydau treth sy'n gyfyngedig i ddau blentyn, sy'n gosb economaidd ychwanegol i oroeswyr cam-drin rhywiol a'u plant.

**Priodas dan orfod:** Yn 2015, rhoddodd yr Uned Priodas dan Orfod gyngor neu gymorth i 25 o bobl yng Nghymru. Yng Nghymru a Lloegr, roedd oed y dioddefwyr yn amrywio o blant ifanc iawn i bobl wedi pasio oed ymddeol: roedd 14% o'r achosion yn cynnwys dioddefwyr dan 16 oed, a 27% dan 18. Mae achosion sy'n cynnwys plant ifanc iawn yn aml yn cynnwys addewid o briodas yn y dyfodol yn hytrach na phriodas ar unwaith. Roedd 980 achos (80%) yn cynnwys dioddefwyr benywaidd a 240 (20%) yn ddioddefwyr gwrywaidd.<sup>18</sup>

**Yr hyn a elwir yn drais 'ar sail anrhydedd':** Yng Nghymru a Lloegr, cofnododd Gwasanaeth Erllyn y Goron 216 o achosion o'r hyn a elwir yn drais 'ar sail anrhydedd' yn ystod 2015-16.<sup>19</sup> Gan fyw mewn sefyllfa o deulu estynedig, gall cam-drin domestig yng nghyd-destun priodas dan orfod a'r hyn a elwir yn drais ar sail anrhydedd effeithio'n ddifrifol ar les meddyliol a chorfforol menywod a phlant.

**Stereoteipio rhywedd:** Gosodir stereoteipiau rhywedd ar blant o'u geni a thrwy gydol eu bywyd, gan gynnal y syniad o fenywod fel pobl israddol i ddynion i gyfiawnhau'r anghydraddoldeb mae menywod yn ei ddioddef yn ddyddiol mewn byd patriarchaidd. Yn adroddiad 150 mlynedd Fawcett, mynegodd 73% o fenywod ifanc a 65% o ddynion ifanc bryder am effaith negyddol stereoteipio rhywedd ar blant yn yr ysgol neu'r feithrinfa.<sup>20</sup>

**Plant ar-lein:** Cynhaliodd ChildLine 3,716 o sesiynau cwnsela gyda phobl ifanc oedd yn siarad yn benodol am bryderon cam-drin rhywiol ar-lein megis cael eu hamlygu i ddelweddau rhywiol eglur ar-lein, rhannu delweddau/negeseuon rhywiol a meithrin perthynas amhriodol yn 2015/16. Roedd hyn yn gynydd o 24% o'i gymharu â 2014/15.<sup>21</sup>

**Cam-drin partner agos yn yr arddegau:** Mae chwarter o ferched ac 18% o fechgyn yn profi rhyw fath o drais corfforol gan bartner. Mae un ym mhob naw merch a 4% o fechgyn yn profi trais corfforol difrifol. Mae yn agos i dri chwarter o ferched a hanner y bechgyn yn profi rhyw fath o drais emosiynol gan bartner. Dywedodd traean o ferched a 6% o fechgyn bod y trais

---

<sup>18</sup> Swyddfa Dramor a Chymanwlad, 'Forced Marriage Unit Statistics 2015', *Home Office*, 2016, [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/505827/Forced\\_Marriage\\_Unit\\_statistics\\_2015.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/505827/Forced_Marriage_Unit_statistics_2015.pdf), (cyrchwyd 31 Ionawr 2017).

<sup>19</sup> CPS, 'Violence against women and girls: Crime report 2015-16', *Crown Prosecution Service*, 2016, [http://www.cps.gov.uk/publications/docs/cps\\_vawg\\_report\\_2016.pdf](http://www.cps.gov.uk/publications/docs/cps_vawg_report_2016.pdf), (cyrchwyd 26 Ionawr 2017).

<sup>20</sup> H. Taaffee, 'Sound Familiar?', 2017, <http://www.fawcettsociety.org.uk/wp-content/uploads/2017/01/Sounds-Familiar-Ionawr-2017.pdf>, (cyrchwyd 30 Ionawr 2017).

<sup>21</sup> NSPCC, 'Childline Annual Review 2015/16: It turned out someone did care', *NSPCC*, 2016, <https://www.nspcc.org.uk/globalassets/documents/annual-reports/childline-annual-review-2015-16.pdf>, (cyrchwyd 1 Mawrth 2017).

emosiynol wedi effeithio'n negyddol ar eu lles. Adroddodd un ferch mewn tair a 16% o fechgyn ryw fath o drais rhywiol gan bartner.<sup>22</sup>

### 3. **Beth yw atal?**

Mae 'gwaith ataliol' yn cyfeirio at ymyriadau sydd wedi'u cynllunio i atal trais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol rhag digwydd yn ogystal ag ymyriadau cynnar i atal achosi niwed pellach a diogelu ein hawl i fod yn rhydd rhag cam-drin. Gall hyn gynnwys dulliau atal sylfaenol, eilaidd a thrydyddol, gyda'r cyfan yn cael eu defnyddio gan wasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod yng Nghymru.

Gellir diffinio'r categorïau hyn o atal fel a ganlyn:

- 1) Atal sylfaenol:** y nod yw atal trais cyn iddo ddigwydd a lleihau achosion o drais a cham-drin a fesurir yn y boblogaeth. Yn nodweddiadol mae'n cynnwys ymyriadau cyffredinol wedi'u cyfeirio at gymunedau cyfan, yn ogystal ag ymyriadau wedi'u targedu at gymunedau 'mewn perygl', gan ymyrryd cyn i unrhyw drais ddigwydd ac felly lleihau'r nifer o achosion newydd. Mae atal cynradd yn dibynnu ar ganfod a deall ffactorau achosol sy'n arwain at drais yn erbyn menywod, a gweithredu i fynd i'r afael â'r ffactorau hyn. Gall dulliau perthnasol gynnwys addysg i newid agweddau a chanfyddiad, ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth, ymyriadau i bob oed i atal anghydraddoldeb rhywedd, ac ymatebion cymunedol anffurfiol.
- 2) Atal eilaidd:** canfod, ar gam cynnar, unigolion neu grwpiau sydd naill ai'n dangos arwyddion o gyflawni cam-drin neu mewn perygl cynyddol o drais (er enghraifft menywod ifanc, menywod beichiog), a darparu adnoddau a chymorth i liniaru canlyniadau uniongyrchol a lle bo'n bosibl, atal y cam-drin rhag cael ei ailadrodd. Gall y dulliau gynnwys: strategaethau ar gyfer pobl benodol sydd yn amlwg mewn perygl, neu sydd wedi cael eu heffeithio'n ddiweddar gan drais neu gam-drin. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau fel ymyrryd yn gynnar, uwchsgilio a chefnogi staff yn y gymuned a chyrrff cyhoeddus i gynyddu cyfleoedd i oroeswyr ddatgelu a chyrrhu cymorth yn seiliedig ar angen.
- 3) Atal trydyddol:** y bwriad yw arafu datblygiad a lleihau'r niwed a achoswyd eisoes gan drais, a thrwy adsefydlu, lleihau'r tebygolrwydd o ddychweliad y broblem. Gall dulliau gynnwys: cymorth arbenigol ar sail angen i oroeswyr a rhaglenni priodol i gyflawnwyr sy'n canolbwyntio ar reoli risg, adsefydlu a newid ymddygiad. Mae hyn yn cynnwys lloches, gwasanaethau therapiwtig, rhaglenni cyflawnwyr a chaledu targedau fel camerâu cylch cyfyng, larymau panig ac ati.
- 4) Atal cychwynol<sup>23</sup>:** diffinnir fel atal y ffactorau risg eu hunain gan gynnwys newid mewn amgylchiadau cymdeithasol ac amgylcheddol. Yng nghyd-destun trais yn erbyn menywod, byddai hyn yn golygu bod angen gwir gydraddoldeb i fenywod ym mhob agwedd o'u bywyd gan gynnwys: gwell ffyniant economaidd i fenywod a merched,

---

<sup>22</sup> C Barter et al., 'Partner exploitation and violence in teenage intimate relationships', NSPCC, 2009, <https://www.nspcc.org.uk/globalassets/documents/research-reports/partner-exploitation-violence-teenage-intimate-relationships-summary.pdf>, (cyrchwyd 1 Mawrth 2017).

<sup>23</sup> <http://rhdinternational.org/about-rhd/prevention-measures/primordial-prevention/>

cau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, dileu rhwystrau strwythurol at gydraddoldeb a chynrychiolaeth wleidyddol gyfartal i fenywod.

Mae'r pedwar cam atal uchod yn ffordd ddefnyddiol i gategoreiddio'r gweithgaredd i ddeall nod ymyrryd, er ei bod yn bwysig creu rhaglenni cynhwysfawr o atal, sy'n cynnwys ymyrryd sylfaenol, eilaidd a thrydyddol.

#### **4. Cyd-destun polisi a deddfwriaeth**

Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (y Ddeddf): yn gwneud trefniadau ar gyfer atal, diogelu a chefnogi. Yng Nghymru, mae'r 'Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol – 2016-2021'<sup>24</sup> sy'n cefnogi'r ddeddf yn gosod cynllun atal clir drwy addysg, grymuso ac ymgysylltu â'r nod o herio agweddau ac ymddygiad ar draws cymdeithas sy'n arwain at drais yn erbyn menywod, a cheisio ffyrdd i'w hatal rhag digwydd neu gael eu hailadrodd. Y pedwar amcan dan atal yn y Ddeddf yw:

- Cynyddu ymwybyddiaeth a herio agweddau ynghylch trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Cymru;
- Cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach a'r ffaith fod ymddygiad camdriniol yn anghywir bob amser;
- Mwy o ffocws ar ddwyn cyflawnwyr i gyfrif, a darparu ymyriadau a chymorth iddynt newid eu hymddygiad gyda phwyslais ar ddiogelwch y dioddefwr;
- Rhoi blaenoriaeth i ymyrryd yn gynnar ac atal.<sup>25</sup>

Pan basiwyd y Ddeddf, bu Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda Cymorth i Ferched Cymru i gyhoeddi 'Canllaw Arfer Da' i ymarferwyr addysg ar sut i hybu lles a chydaddoldeb rhywedd er mwyn sicrhau perthnasoedd â pharch.<sup>26</sup> Rhan allweddol o'r canllaw cenedlaethol hwn yw annog pobl ifanc i ddechrau neu ymuno ag ymgyrchoedd lleol a byd-eang i atal trais ar sail rhywedd a rhywiol yn eu hysgolion a'u cymunedau.

Mae'r Ddeddf hefyd yn cysylltu â darnau allweddol eraill o ddeddfwriaeth Gymreig, sef Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r tri darn o ddeddfwriaeth yn gosod dyletswyddau cyfreithiol ar awdurdodau lleol i fod yn rhagweithiol yn hytrach nag yn ymatebol i lesiant pobl yng

---

<sup>24</sup> Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol – 2016-2021 Llywodraeth Cymru <http://gov.wales/docs/ds/jlg/publications/commsafety/161104-national-strategy-cy.pdf>

<sup>25</sup> Ibid.

<sup>26</sup> Canllaw Arfer Da: Dull Addysg Gyfan o Ymdrin â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru <http://gov.wales/docs/ds/jlg/publications/commsafety/151020-whole-education-approach-good-practice-guide-cy.pdf>



Nghymru. Yn ogystal, gellir cysylltu â Deddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf Cartrefi ar Rent (Cymru) 2016.

Mae gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) nodau tymor hir i atal pob math o drais rhag digwydd yn y lle cyntaf, gan weithio at greu cymdeithas gyfartal. Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru wedi nodi bod ymdrin â rôl herio profiadau niweidiol yn ystod plentyndod<sup>27</sup>, sy'n cynnwys trais domestig<sup>28</sup>, yn flaenoriaeth i ddiogelu llesiant.

## **5. Manteision gwasanaethau atal i blant a phobl ifanc**

Mae trais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn cyffwrdd â bywydau llawer o bobl yng Nghymru, ac mae iddo oblygiadau arbennig o ddifrifol i blant a phobl ifanc. Gall hyn effeithio ar eu diogelwch eu hunain; eu hiechyd corfforol, iechyd meddwl a'u llesiant cyffredinol; eu perthynas â theulu a chyfoedion; eu potensial i fwynhau perthynas hapus, â pharch yn y dyfodol; a'u cyflawniad addysgol cyfredol ac yn y dyfodol.

Ceir cysylltiad rhwng atal trais yn erbyn menywod, a hyrwyddo llesiant ac iechyd y cyhoedd yn ehangach. Amlygodd yr ymchwiliad diweddar i brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod gan Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2015<sup>29</sup> fod profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, gan gynnwys trais a cham-drin, yn gallu effeithio ar iechyd a llesiant yn y dyfodol. Gall cael eich amlygu yn ystod plentyndod i drais yn gyffredinol effeithio'n negyddol ar gyflawniad yn yr ysgol a rhagolygon economaidd fel oedolyn, iechyd meddwl a gwydnwch, iechyd rhywiol, iechyd corfforol a thebygolrwydd cynyddol o fecanweithiau ymdopi negyddol.

Nid yn unig fyddai atal sylfaenol o ran trais yn erbyn menywod yn gwella llesiant y boblogaeth ac yn lleihau pwysau ar y pwrs cyhoeddus, ond gallai atal profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a gwella gwydnwch a ffactorau amddiffynnol i blant arwain at leihad o 60% mewn amledd trais ymhlith oedolion<sup>30</sup>.

Mewn un arolwg yn y DU yn 2007 gan Senedd Ieuenctid y DU o 20,000 o bobl ifanc dan 18:

- Roedd 40 y cant yn meddwl bod yr Addysg Rhyw a Pherthynas a gawsant naill ai'n wan neu'n wan iawn;

---

<sup>27</sup> Adverse Childhood Experiences and their impact on health-harming behaviours in the Welsh adult population <http://www.cph.org.uk/wp-content/uploads/2016/01/ACE-Report-FINAL-E.pdf>

<sup>28</sup> Developing Priorities for the Future Generations Commissioner 2017 – 2023, Future Generations Commissioner for Wales [https://futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/03/FGCW\\_Priority\\_Paper\\_No\\_endnotes\\_ENG.pdf](https://futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/03/FGCW_Priority_Paper_No_endnotes_ENG.pdf)

<sup>29</sup> Adverse Childhood Experiences and their impact on health-harming behaviours in the Welsh adult population, *ibid.*

<sup>30</sup> *Ibid.*

- Roedd 61 y cant o fechgyn a 70 y cant o ferched yn adrodd na chawsant unrhyw wybodaeth am berthnasoedd personol yn yr ysgol;
- Roedd 73 y cant yn teimlo y dylid addysgu addysg rhyw a pherthynas cyn 13 oed.

Mae'r ymchwil yn awgrymu bod plant a phobl ifanc yn awyddus i ddysgu am ryw, pethynas, parch a cham-drin<sup>31</sup>. Maent wedi canfod eu bod yn cael gwybodaeth annigonol am berthnasoedd a hefyd maent yn cydnabod bod lle i wella ansawdd yr wybodaeth maent yn ei derbyn yn fawr. Mae hyn yn codi pryderon nad yw atal VAWDASV yn flaenoriaeth mewn lleoliadau addysg yn ogystal â chynnig sail tystiolaeth fod pobl ifanc yn awyddus i gael addysg rhyw a pherthynas o ansawdd uchel yn gynharach yn eu taith addysgol.

Mae'n cadarnhau ymhellach ffeithiau pryderus mwy diweddar a godwyd am y ffordd mae pobl ifanc yn cael addysg rhyw a pherthynas ar ffurf pornograffi hawdd ei gyrchu. Canfu ymchwil a gynhaliwyd yn 2014 y canlynol:

- Roedd 45% o ddynion ifanc a 29% o fenywod ifanc yn cytuno'n gryf fod 'pornograffi'n helpu pobl ifanc i ddysgu am ryw'.
- Roedd 21% o ddynion ifanc a 40% o fenywod ifanc yn cytuno'n gryf fod 'pornograffi'n arwain at agweddau afrealistig at ryw'
- Roedd 18% o ddynion ifanc a 37% o fenywod ifanc yn cytuno'n gryf fod 'pornograffi'n annog cymdeithas i ystyried menywod yn wrthrychau rhyw'<sup>32</sup>

Byddai hyn yn awgrymu nad yw'r wybodaeth sydd ei hangen ar bobl ifanc ac y maent yn awyddus i'w chael am ryw a pherthynas ar gael iddynt o fewn lleoliadau addysg rheolaidd ac felly maent yn chwilio am yr wybodaeth eu hunain yn y byd digidol sy'n esblygu'n barhaus. Mae cyrchu pornograffi'n rhwydd yn arwain at ganfyddiad afrealistig o ryw a pherthnasoedd ac mae'n cyfrannu at broblem anghydraddoldeb rhywedd o fewn cymdeithas sy'n achos ac yn ganlyniad i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

## **6. Pam fod angen cymorth arbenigol ar blant a phobl ifanc?**

Heddiw, ceir llawer mwy o ffocws ar weithredu'n gynnar cyn i broblemau ddigwydd. Mae'r achosion moesegol ac economaidd dros ymyrryd yn gynnar yn oes unrhyw broblem, gorau oll cyn iddi godi, yn bwerus. Fodd bynnag, er gwaethaf y gwaith da cynyddol sy'n cael ei wneud, er enghraifft gan awdurdodau lleol, elusennau a chyrrff gwirfoddol, mae angen gweithredu mwy cydlynol i greu fframwaith cyffredin o bolisiau a rhaglenni ansawdd uchel yn seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau newid cymdeithasol a dileu VAWDASV yng Nghymru.

<sup>31</sup> [www.preventionplatform.org.uk](http://www.preventionplatform.org.uk)

<sup>32</sup> Parker, I. (2014). 'Young People, Sex and Relationships: The New Norms. Institute for public policy research

Yn gynharach eleni, wrth gynnal ymarfer mapio a chwmpasu ynghylch gwasanaethau plant a phobl ifanc ar draws Cymru, canfu Cymorth i Ferched Cymru fod angen cymorth mwy dwys, arbenigol, therapiwtig ar blant a phobl ifanc sy'n profi VAWDASV. Mae ymyriadau cyfredol yn aml yn gryno gyda gwasanaethau dan bwysau i weithio gyda niferoedd uchel o atgyfeiriadau ac ambell waith caiff ansawdd ei gyfaddawdu. Gallai gwasanaethau arbenigol gynnig gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol / cwnsela trais rhywiol / therapi chwarae i blant a phobl ifanc a effeithir gan VAWDASV gan nad yw gwasanaethau cwnsela generig i bobl ifanc (er enghraifft mewn ysgolion) bob amser yn gallu bodloni'r galw. Mae cwnsela arbenigol ar gyfer VAWDASV mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru hefyd yn anodd eu cyrchu. Er enghraifft, atgyfeiriodd un gweithiwr o'n haelod-wasanaeth yn ne Gwynedd blentyn i gael cwnsela trais rhywiol ond roedd yr apwyntiad ddwy awr i ffwrdd o ble'r oedd yn byw. Hefyd ychydig iawn o wasanaethau cwnsela arbenigol sydd ar gael yn Gymraeg sy'n rhwystr i dderbyn y gwasanaeth hwn gan na fyddai plant sydd â'r Gymraeg yn iaith gyntaf yn ddigon hyderus eu Saesneg i gael cwnsela tan eu bod yn hŷn. Byddai gwasanaeth wedi'i lywio gan drawma'n gallu ymateb i'r angen i ymwneud â phlant yn eu hiaith gyntaf.

## **7. Hybu a diogelu plant a phobl ifanc, o feichiogrwydd ymlaen**

Ceir tystiolaeth dda am ymyriadau a all atal neu liniaru ffactorau sy'n cynyddu'r risg o ganlyniadau gwael yn ddwy oed (fel cam-drin domestig, amlygu i drais a cham-drin, tlodi ac anfantais, amlygu i ddefnydd problematig o sylweddau, afiechyd meddwl a llesiant emosiynol gwael mamau), ac mae'r rheini wedi'u disgrifio'n dda mewn ymchwil a chanllawiau proffesiynol a NICE (e.e. Canllaw Trais Domestig NICE<sup>33</sup>). Fodd bynnag ceir heriau sylweddol i sicrhau bod y dystiolaeth hon yn cael ei rhoi ar waith a'i gwreiddio mewn ymarfer proffesiynol.

Bydd canfod cynnar ac ymyrryd yn briodol a mynediad at wasanaethau cymorth arbenigol yn y trydydd sector yn hybu ac yn diogelu iechyd a lles plant a gaiff eu heffeithio'n andwyol gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Gellir gwneud cynnydd sylweddol i wella bywydau menywod a phlant yn ystod cyfnod y blynyddoedd cynnar drwy hyfforddiant gwybodus, strwythuredig i staff y sector cyhoeddus a llwybrau atgyfeirio clir at y gwasanaethau arbenigol. Mae dyletswyddau sector cyhoeddus newydd dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, yn ei gwneud yn ofynnol i weithwyr proffesiynol yn y sector sydd wedi'u hyfforddi, gan gynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol, wneud ymholiadau uniongyrchol, a elwir yn 'Gofyn a Gweithredu'.

### **Ymarfer Addawol:**

<sup>33</sup> Domestic violence and abuse: multi-agency working, 2014  
Nice.org.uk/guidance/ph50

### **Cymorth i Ferched Port Talbot ac Afan: Prosiect Arweiniad drwy Ryngweithio Fideo**

Mae Cymorth i Ferched Port Talbot ac Afan wedi bod yn darparu Prosiect Arweiniad drwy Ryngweithio Fideo ers mis Hydref 2015. Mae'n brosiect unigryw sy'n defnyddio dull Arweiniad drwy Ryngweithio Fideo i helpu mamau a babanod (dan ddwy oed) sydd wedi'u heffeithio gan cam-drin domestig.

Mae'r dull pwrpasol yn cynnwys ffilmio rhyngweithio rhwng y fam a'r plentyn ac yna golygu'r fideo i amlygu tri ennyd cadarnhaol o ryngweithio. Yna caiff hwn ei wyllo gyda'r cleient a'i drafod mewn dyfnder. Mae'r Prosiect yn gwella cyfathrebu rhwng y fam a'r plentyn, a all helpu gydag ymlyniad a bondio.

Gan gydnabod y gall y berthynas rhwng y fam a'r plentyn fod wedi'i heffeithio gan gam-drin domestig, mae'r dull hwn yn canolbwyntio ar elfennau cadarnhaol ac yn cydnabod yr hyn mae rhieni'n ei wneud yn dda eisoes, er mwyn annog ailadrodd yr ymddygiad hwnnw. Caiff y gwasanaeth ei gynnig ar adeg allweddol yn ystod plentyndod rhwng 0-2 oed, i liniaru unrhyw effeithiau tymor hir y gall cam-drin domestig eu cael ar blentyndod diweddarach.

Mae goroeswyr yn tystio i lwyddiant y dull:

- *"Mae'n rhoi hyder i chi."*
- *"Mae gwyllo'r fideo yn eich gwneud chi'n fwy ymwybodol."*
- *"Mae'n teimlo'n arbennig i wyllo'n ôl a gweld eich bond."*

Mae'r prosiect yn derbyn atgyfeiriadau gan weithwyr proffesiynol a hunan-atgyfeiriadau.

Ceir tystiolaeth sylweddol bod cyd-leoli gweithwyr cymorth VAWDASV arbenigol mewn meddygfeydd teulu (e.e. IRIS<sup>34</sup>), gwasanaethau iechyd meddwl a chyfleusterau A&E yn hwyluso ymyrryd yn gynnar a mynediad at gymorth i fenywod na fyddent fel arall yn ceisio cymorth nac yn datgelu cam-drin. Pe bai'n cael ei wneud mewn wardiau mamolaeth yng Nghymru a lleoliadau gofal iechyd eraill, gallai cyd-leoli gweithwyr cymorth cam-drin domestig arbenigol (eiriolwyr) gryfhau effaith arferion 'Gofyn a Gweithredu' cyfredol, a eglurir yn y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, drwy gryfhau ansawdd y cymorth sydd ar gael i famau a phlant a chyflymder ac effeithlonrwydd llwybrau atgyfeirio, a chefnogi staff yr un pryd. Dywedodd un goroeswr:

*"Roeddwn i'n poeni am y babi (yn ystod beichiogrwydd), doeddwn i ddim eisiau meddwl am fynd at yr heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol ond pan*

<sup>34</sup> Cynllun hyfforddi atgyfeirio cam-drin domestig yw IRIS i feddygon teulu. Mae wedi'i anelu at fenywod sy'n profi cam-drin gan bartner presennol neu aelod o'r teulu sy'n oedolyn. Mae IRIS hefyd yn darparu gwybodaeth ac arwyddo i ddiodefyrwyr a chyflawnwyr gwrywaidd. Mae'r rhaglen yn brosiect cydweithredol rhwng gwasanaethau arbenigol trydydd sector ac iechyd. <http://www.irisdomesticviolence.org.uk/iris/>

*gynigiodd y fydwraig gyfle i fi sgwrsio gyda rhywun a allai fy helpu gyda'r cam-drin, roeddwn i'n falch."*

Yn ogystal, mae gweithwyr iechyd proffesiynol wedi bod yn hanfodol ar gyfer canfod cynnar a chyfrannu data ansoddol a meintiol ynghylch troseddau anffurfio organau cenhedlu benywod, sy'n cael cefnogaeth bellach gan Ddeddf Troseddau Difrifol 2015, sy'n ei gwneud yn orfodol i weithwyr proffesiynol llinell flaen adrodd am bryderon diogelu mewn perthynas ag anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM). Mae hyn wedi helpu i amlygu amledd yr arfer, yn ogystal â chynyddu'r nifer o achosion a adroddir i'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol, â'r nod o atal merched a menywod rhag profi FGM a dileu'r arfer erbyn 2030. Mae angen rhagor o waith yng Nghymru i sicrhau bod data ac ymatebion cadarn i atal FGM yn greiddiol ym mhob gwasanaeth, gan weithio mewn partneriaeth a chael arweiniad gan wasanaethau arbenigol BME fel Bawso<sup>35</sup>, sy'n arwain y ffordd ar ddatblygu dulliau cymunedol i atal FGM yng Nghymru<sup>36</sup>.

## **8. Atal drwy addysg**

Mae agwedd addysg-gyfan at atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn hanfodol er mwyn lliniaru effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn gysylltiedig ag amlygiad i gam-drin domestig a thrais rhywiol a ddigwyddodd neu a ddechreuodd yn ystod 1,000 diwrnod cyntaf unrhyw blentyn. Dylai pob sefydliad addysg ddatblygu a gweithredu agwedd addysg-gyfan, fel yr amlinellir yn 'Arweiniad Arfer Da' Llywodraeth Cymru,<sup>37</sup> sy'n hyrwyddo dysgu gan staff a myfyrwyr am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn ogystal â chydarddoldeb rhywedd, parch a pherthnasoedd iach.

Er mwyn helpu ysgolion a sefydliadau addysg bellach i fynd i'r afael â VAWDASV, ceir naw elfen allweddol a ddylai fod yn weithredol<sup>38</sup>:

1. Plant a phobl ifanc yn dysgu am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
2. Staff yn dysgu am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
3. Rheini, gofawyr a theulu' n dysgu am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
4. Systemau monitro a gwerthuso wedi'u sefydlu i fesur effaith y gwaith hwn

<sup>35</sup> Bawso <http://www.bawso.org.uk/>

<sup>36</sup> FGM Helpline, NSPCC [fgmhelp@nspcc.org.uk](mailto:fgmhelp@nspcc.org.uk) / 0800 028 3550

<sup>37</sup> <http://gov.wales/docs/dsilg/publications/commsafety/151020-whole-education-approach-good-practice-guide-cy.pdf>

<sup>38</sup> Addaswyd o UK Violence Against Women Digital Prevention Platform. AVA Digital Prevention Platform [www.preventionplatform.co.uk](http://www.preventionplatform.co.uk)

5. Mesurau'n weithredol i gefnogi pobl sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
6. Cyfranogiad gweithredol gan plant a phobl ifanc, staff a rhieni/gofalwyr i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
7. Gweithredu i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn y gymuned ehangach
8. Gweithio mewn partneriaeth gydag arbenigwyr lleol perthnasol
9. Gwreiddio rhaglen atal gynhwysfawr

Mae pob un o'r elfennau hyn yn bwysig i sicrhau agwedd 'addysg gyflawn' gynhwysfawr. Mae gwybodaeth am adnoddau addas i'w defnyddio mewn sefydliadau addysg i'w chael yn y Pecyn Cymorth Addysg sydd ar gael drwy wefan Byw Heb Ofn. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o ymarfer addawol.<sup>39</sup>

**Ymarfer Addawol:**

**AGENDA: Canllaw i bobl ifanc i wneud i berthnasoedd cadarnhaol gyfrif**

Gair Lladin yw AGENDA sy'n golygu 'sicrhau bod pethau'n cael eu gwneud'. Dyma'r canllaw cenedlaethol cyntaf yng Nghymru i bobl ifanc ar sut y gallant wneud i berthnasoedd cadarnhaol weithio'n greadigol ac yn ddiogel. Ei nod yw helpu pobl ifanc i ymarfer eu hawliau, cael eu hysbrydoli gan straeon pobl eraill a chefnogi ei gilydd i ddechrau rhannu a newid yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

Crëwyd AGENDA gyda grŵp amrywiol o 12 o bobl ifanc, ac mae wedi'i gynllunio fel bod pobl ifanc yn gallu archwilio pethau gwahanol yn eu pwysau. Mae'n seiliedig ar egwyddor allweddol y canllaw Addysg Gyflawn, sy'n galw am 'gyfranogiad gweithredol gan blant a phobl ifanc'.<sup>40</sup> Yn hytrach na thafllu ffeithiau, diffiniadau ac ystadegau at bobl ifanc, gobaith AGENDA yw cysylltu pobl ifanc â'r gwahanol ffyrdd mae pobl ifanc eraill yng Nghymru a thrwy'r byd yn codi ymwybyddiaeth o'r modd mae trais ar sail rhywedd a rhywiol yn effeithio ar eu bywydau a bywydau pobl eraill.

**Ymarfer Addawol:**

**Gwaith ymgysylltu ag ysgolion gan Bawso ar anffurfio organau cenedlu benywod (FGM)**

Darparwr cymorth achrededig ar draws Cymru yw Bawso sy'n cyflenwi gwasanaethau arbenigol i bobl o gefndiroedd Du a Lleiafrifol Ethnig (BME) a gaiff eu heffeithio gan gam-drin domestig a mathau eraill o gam-drin, gan gynnwys anffurfio organau cenedlu benywod, priodas dan orfod, y fasnach mewn pobl a phuteindra.

<sup>39</sup> <http://livefearfree.gov.wales/policies-and-guidance/violence-teaching-resources?lang=cy>

<sup>40</sup> *Canllaw Arfer Da: Dull Addysg Gyfan o Ymdrin â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru*, (2016) p.21.

Mae Bawso hefyd yn ymgysylltu gyda lleoliadau addysg ynghylch gwaith ataliol, gan gynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd seciwlar a chrefyddol.

Gweithdai i athrawon: Nod y gweithdai yw codi ymwybyddiaeth o FGM a thrafod sut gall athrawon gynnig cymorth i'w myfyrwyr. Nod y gweithdy yw galluogi athrawon i adnabod y perygl o FGM ymhlith disgyblion mewn ffordd ddiogel. Roedd y gweithdy'n cynnwys gwybodaeth fanwl am FGM gan gynnwys cefndir yr arfer, mathau o FGM a'r effaith ar iechyd, sut i adnabod arwyddion mewn myfyrwyr sydd mewn perygl a sut i ddelio â'r sefyllfa. Mae'r gweithdy hefyd yn trafod syniadau am sut y gall athrawon a disgyblion weithio gyda'i gilydd i hybu ymwybyddiaeth am FGM yn eu hysgol.

Sesiwn ymwybyddiaeth gyda disgyblion: Mae'r sesiynau'n cynnwys cyflwyniad, gweithdy a chynhyrhydd syniadau ynghylch sut y gall pobl ifanc godi ymwybyddiaeth am FGM a helpu i roi terfyn ar yr arfer. Mae'r cyflwyniad yn cynnwys gwybodaeth am FGM, FGM a'r gyfraith, FGM a hawliau dynol a sut y gall pobl ifanc godi ymwybyddiaeth i ddileu'r arfer. Mae'r gweithdai'n edrych ar sut i adnabod arwyddion o ffrind a allai fod mewn perygl, sut i ddelio â'r sefyllfa a phwy i siarad â nhw neu ble i fynd am gymorth a chynghor. Ar ddiwedd y sesiwn, mae Bawso yn chwarae fideo am grŵp o bobl ifanc yn gweithio ar brosiect drama i godi ymwybyddiaeth o FGM ac yn gofyn i'r disgyblion ganu cân gyda'i gilydd am frwydro yn erbyn FGM.

#### **Ymarfer Addawol:**

##### **Prosiect Sbectrwm Hafan Cymru**

Prosiect Sbectrwm yw rhaglen ataliol Hafan Cymru a gyllidir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n cyflwyno sesiynau codi ymwybyddiaeth mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws Cymru i addysgu plant am berthynas iach, cam-drin a'i ganlyniadau a ble i gael cymorth. Yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth am gam-drin ymhlith myfyrwyr mae Prosiect Sbectrwm hefyd yn cyflwyno sesiynau i athrawon a staff cymorth addysgu, gweithwyr ieuencid, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill sydd â diddordeb.

Mae sesiynau Sbectrwm yn cydymffurfio â gofynion y Fframwaith Addysg Personol a Chymdeithasol ac yn addas i bob cyfnod allweddol ar draws yr ystod gynradd ac uwchradd. Mae pob sesiwn yn addas i'r oedran ac wedi'i bwriadu i hybu trafodaeth heb annog disgyblion i ddatgelu profiadau personol. Mae pob sesiwn yn cynnwys trafodaeth am ble gall pobl ifanc fynd am help a chefnogaeth os ydynt yn teimlo'r angen. Fel arfer mae sesiynau Sbectrwm yn para am awr a chânt eu rhedeg ar ffurf gweithdy. Mae'r holl adnoddau am ddim ac yn ddwyieithog.

Y nod yw annog pobl ifanc i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac yn ddigon hyderus i leisio eu barn a chlywed barn eu cymheiriaid. Mae holl aelodau'r Tîm Cyswllt Ysgolion wedi'u hyfforddi ac yn athrawon ac addysgwyr profiadol. Maent hefyd yn ddwyieithog ac felly'n gallu cynnal sesiynau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

## **9. Atal yn y gymuned**

Mae ymgysylltu cymunedol yn hanfodol ar gyfer cyflawni'r nod tymor hir o atal VAWDASV ac mae hyn yn cynnwys darparu rhaglenni atal o fewn y gymuned fel mentrau ymyrryd gwyliedydd, codi ymwybyddiaeth ac addysg fel bod menywod, plant a dynion yn gwybod bod yr ymddygiad hwn yn annerbyniol. Mae angen blaenoriaethu ansawdd a hygyrchedd raglenni cymorth i'r rheini sydd mewn perygl neu sydd wedi cam-drin er mwyn newid eu hymddygiad. Mae rhaglenni cyfredol i gyflawnwyr yn aml yn gyfyngedig i'r rheini sydd eisoes wedi cam-drin ac sydd yn y system cyfiawnder troseddol, ac felly yn eithrio'r rhai sydd mewn perygl o ddefnyddio ymddygiad camdriniol a hefyd y rheini sydd wedi defnyddio ymddygiad camdriniol ond sydd heb fynd i'r system cyfiawnder troseddol. Mae atal ymddygiad o gam-drin yn dechrau gyda phobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn gyflawnwyr wrth dyfu'n oedolion.

Rhaid i brosiectau effeithiol wedi'u hanelu at newid credoau ac arferion niweidiol mewn cymuned ymgysylltu, a chael aelodau o'r gymuned honno'n rhan ohonynt. Gall cyrff arbenigol chwarae rhan bwysig i hwyluso a chefnogi, ond rhaid i'r newid ddigwydd yng nghalonau a meddyliau aelodau o'r gymuned eu hunain. Gall cyrff trais yn erbyn menywod arbenigol yn y trydydd sector (fel aelodau Cymorth i Ferched Cymru) weithio'n agos gydag unigolion (gan gynnwys plant a phobl ifanc), grwpiau a sefydliadau i gryfhau eu capasiti i fod yn asiantau newid yn eu cymuned.

### **Ymarfer Addawol:**

#### **Cymorth i Ferched Cymru – Cyfres Gwasanaethau S.T.A.R (Diogelwch, Ymddiriedaeth a Pharch)**

Mae rhaglenni cymorth arbenigol fel S.T.A.R (Diogelwch, Ymddiriedaeth a Pharch) yn gyfle i blant a phobl ifanc sydd wedi profi VAWDASV symud y tu hwnt i'r hyn a ddigwyddodd mewn ffordd ddiogel a therapiwtig. Mae'r cymorth arbenigol yn canolbwyntio ar helpu plant a phobl ifanc i ddeall nad eu bai nhw yw'r hyn a ddigwyddodd iddyn nhw. Ffocws pwysig arall yw helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu cynlluniau ar gyfer eu diogelwch os cânt eu hamlygu i gam-drin eto.

Mae Cyfres Gwasanaethau S.T.A.R. yn hyrwyddo dulliau addysg a chymunedol at atal pob math o drais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r rhaglenni wedi'u cynllunio i herio anghydraddoldeb rhywedd a brofir gan blant a phobl ifanc, gwella diogelwch a lleihau'r effaith yn y dyfodol ar blant a phobl ifanc yn sgil tystio/profi cam-drin a thrais o'r fath.

Mae sesiynau wythnosol un i un neu waith grŵp yn helpu plant a phobl ifanc i nodi a mynegi eu teimladau am gam-drin, gwahanu a cholled. Mae plant yn aml yn dysgu adnabod eu teimladau a deall pa mor bwysig yw teimladau, a chaiff strategaethau ar reoli teimladau dwys eu harchwilio drwy weithgareddau hwyliog sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Mae datrys gwrthdaro mewn modd cadarnhaol drwy fodolau rôl a chwarae yn helpu plant i ymarfer y sgiliau newydd a gaiff eu harchwilio yn y sesiynau.



Mae Cymorth i Ferched Cymru yn cyflenwi hyfforddiant i wasanaethau arbenigol redeg gwaith grŵp a chymorth unigol i blant a phobl ifanc (a'u rhiant/gofalwr) sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin; hyfforddi a chyflwyno grwpiau ymwybyddiaeth a pherthynas iach i blant a phobl ifanc (4-25 oed) mewn addysg neu wasanaethau eraill; a hyfforddiant i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ac sydd angen darparu cefnogaeth yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig neu drais rhywiol. Mae'r prosiect atal cymunedol ehangach hwn yn ategu rhaglen Sbectrwm Hafan Cymru mewn ysgolion.

#### **Ymarfer Addawol:**

##### **Gwasanaeth Taith Barnardo's Cymru**

Mae Gwasanaeth Taith Barnardo's Cymru yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n dangos ymddygiad rhywiol amhriodol at blant a phobl ifanc eraill, er mwyn hybu diogelu a pherthnasoedd priodol, iach, parchus. Mae'n wasanaeth asesu ac ymyrryd i blant a phobl ifanc 8 i 21 oed yr honnir iddynt ymgymryd ag ymddygiad niweidiol yn rhywiol.

Mae'r Gwasanaeth yn cyflogi gweithwyr arbenigol o gefndiroedd proffesiynol ym maes diogelu plant, troseddu ieuentid a seicoleg. Mae'r Gwasanaeth yn cynnwys pedwar ymarferydd llawn amser, pedwar ymarferydd rhan amser, rheolwr tîm, un gweinyddydd llawn amser, un gweinyddydd rhan amser a Rheolwr Gwasanaethau Plant.

Credant fod gan unrhyw blant a phobl ifanc y gallu i newid a datblygu. Eu nod yw helpu i atal cam-drin rhywiol gan blant a phobl ifanc drwy eu galluogi i ddysgu i reoli eu hymddygiad rhywiol niweidiol. Mae Gwasanaeth Taith hefyd yn helpu rhieni, gofalwyr maeth a gweithwyr proffesiynol eraill i gynorthwyo pobl ifanc.

Defnyddiant amrywiol dechnegau i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, i'w helpu i gymryd cyfrifoldeb am eu hymddygiad a symud i ddatblygu perthnasoedd diogel ac iach. <sup>41</sup>

---

<sup>41</sup> [www.barnardos.org.uk/taith.htm](http://www.barnardos.org.uk/taith.htm)

**Ymarfer Addawol:****Prosiect Mentora Cymorth i Ferched Cyfannol**

Mae Cymorth i Ferched Cyfannol yn rhoi mentoriaid i fechgyn sydd wedi profi cam-drin domestig i weithredu fel modelau rôl cadarnhaol. Mae'r mentora'n defnyddio dull yn canolbwyntio ar ddatrysiadau i adeiladu ar gryfderau'r plentyn. Gyda'u mentoriaid, mae bechgyn wedi gweithio ar brosiectau sy'n rhoi ymdeimlad o gyflawniad personol fel:

- Dringo'r Wyddfa
- Seiclo dros Bont Hafren
- Dysgu i nofio dan y dŵr

Ar ôl blwyddyn o fentora, mae bechgyn yn tueddu i wella'n ddramatig o ran canolbwyntio, ymddygiad ymosodol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn allweddol, mae Cyfannol yn sicrhau bod rhieni hefyd yn gallu cael cymorth fel rhan o'r prosiect.

**10. Beth mae goroeswyr yn ei ddweud am waith ataliol gyda phlant a phobl ifanc?**

*“Rhaid i chi roi cyfle i bobl ifanc siarad a gwranddo ar yr hyn maen nhw'n ei ddweud” (person ifanc yng Nghynhadledd Mae Plant Yn Bwysig Hefyd 2017).*

Mae'n bwysig gwranddo a chlywed lleisiau plant a phobl ifanc, gan gynnwys eu profiadau fel babanod. Mae arweiniad da i fynd i'r afael â hyn yn adroddiad diweddar Comisiynydd Plant Cymru 'Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru'.<sup>42</sup>

Mae angen gwneud hyn mewn modd sy'n briodol i'r oedran yn ogystal â – os yw'n briodol ac yn ddiogel – gwranddo ar anghenion y rhiant nad yw'n cam-drin. Mae gan sefydliadau arbenigol trais yn erbyn menywod sy'n cael eu llywio gan oroeswyr ddealltwriaeth arbenigol o effaith trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar blant a gallant hwyluso ymglymiad goroeswyr a'u plant mewn gwasanaethau blynyddoedd cynnar a datblygu ac adolygu systemau.

*“Mae angen cymorth ar ein plant hefyd. Mae angen iddyn nhw allu cael help i'w helpu i ddeall beth sydd wedi digwydd”*

*(Goroeswr, Are You Listening, Am I Being Heard?)<sup>43</sup>*

Yn 2016 cynhaliwyd ymgynghoriad gyda goroeswyr<sup>44</sup> i lywio'r Strategaeth Genedlaethol newydd ar VAWDASV yng Nghymru. Nododd goroeswyr 10 argymhellid allweddol i'w

<sup>42</sup>Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru', (Mawrth 2017), <https://www.complancymru.org.uk/wp-content/uploads/2017/04/Y-Ffordd-Gywir.pdf> [cyrchwyd Medi 2017].

<sup>43</sup> Ibid.

<sup>44</sup> Are you listening and am I being heard?

cynnwys fel blaenoriaeth yn y strategaeth genedlaethol wedi'i diweddarau, i'w cyflenwi gan Lywodraeth Cymru, ac roedd pedwar yn ymwneud yn benodol â phlant a phobl ifanc:

- Gwasanaethau cymorth arbenigol penodol i blant a phobl ifanc sy'n profi cam-drin domestig, trais rhywiol, FGM, priodas dan orfod, cam-fanteisio neu aflonyddu rhywiol, i fod ar gael ym mhob ardal.
- Gwell ymwybyddiaeth ac ymateb gan weithwyr proffesiynol yn y system cyfiawnder teuluol (CAFCASS Cymru, barnwyr a phersonél y llys, canolfannau cyswllt) i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a chyswllt diogel i blant gyda rhieni/gofalwyr yn dilyn gwahanu, mewn achosion o gam-drin domestig a thrais rhywiol.
- Gwasanaethau cwnsela a therapiwtig i oroeswyr ym mhob ardal fel bo angen, ac sy'n briodol i'r oedran ac yn helpu i adeiladu gwydnwch ac ymadfer o gam-drin.
- Atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol rhag digwydd yn y lle cyntaf, drwy addysg ataliol orfodol ym mhob ysgol a choleg, gan gynyddu ymwybyddiaeth o'r materion a'r cymorth sydd ar gael mewn cymunedau lleol ar draws Cymru.

#### **Ymarfer Addawol:**

#### **Cynllun 'Holwch Fi'**

Mae Cymorth i Ferched Cymru a Women's Aid Federation England, gan weithio gydag awdurdodau lleol, wedi lansio cynllun 'Holwch Fi' i hyfforddi 'llysgenhadon cymunedol' ym Mhowys, fel rhan o'r model gwasanaeth ymyrryd cynnar newydd *Newid sy'n Para*<sup>45</sup>. Mae hyn yn creu rhagor o gyfleoedd ar gyfer datgelu diogel ac arwyddo at gymorth a chefnogaeth mewn cymunedau lleol drwy fusnesau lleol a chanolfannau cymunedol. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn achosion ble mae'r cyflawnwyr wedi defnyddio iaith a rhwystrau cyfunol mewn, er enghraifft, cymunedau gwledig i ynysu goroeswyr ymhellach, ac mewn rhai achosion gwrthod rhywfaint neu'r holl ofal mamolaeth neu ôl-enedigol i famau beichiog/newydd, a thrwy hynny osgoi mynediad at arferion 'Holi a Gweithredu' da.

*“Roeddwn i wedi fy ynysu'n llwyr. Fyddai hyfforddiant a phosteri ddim wedi golygu dim byd ... roeddwn i'n rhy ofnus, dyna'r rhwystr mwyaf. Cael fy nghloi'n gorfforol, a fy nghadw'n garcharor, a bod yn ofnus.”*

Mae cyflawnwyr yn deall ofnau goroeswyr y gallai unrhyw gyswllt â'r Gwasanaethau Cymdeithasol dynnu eu plant oddi arnynt, a gellir defnyddio ofn o'r fath i dawelu a rheoli mamau. Dywedodd goroeswyr y dylai eu diogelwch nhw a'u plant fod yn flaenoriaeth mewn achosion o drais a cham-drin. Roedd hyfforddiant diogelu'n bryder penodol i rai goroeswyr

<http://www.rhianbowendavies.com/wp-content/uploads/2016/09/Are-you-listening-and-am-I-being-heard-FINAL-July-2016.pdf>

<sup>45</sup> <https://www.womensaid.org.uk/our-approach-change-that-lasts/>

oedd yn argymhell cynnal hyfforddiant pellach i sicrhau bod gan weithwyr proffesiynol ddealltwriaeth yn seiliedig ar drawma dan arweiniad anghenion yn ôl rhywedd o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

*“Dyw hyfforddiant diogelu i asiantaethau ddim yn ddigon. Mae’n cynnig rhywfaint o wybodaeth ond does dim gwybodaeth na dealltwriaeth ddofn o gam-drin domestig mewn cyrsiau diogelu.”*

Mae goroeswyr wedi dweud wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu barnu ac ambell waith bydd gweithwyr proffesiynol sy’n gweithio gyda phlant yn gofyn iddynt gyfryngu gyda’r camdriniwr, sy’n gosod y menywod a’u plant mewn perygl cynyddol o niwed. Mae Cymorth i Ferched Cymru ar hyn o bryd yn gweithio gyda CAF/CASS Cymru i gyflenwi rhaglen o waith i wella eu dealltwriaeth o ymddygiad cymhellol a rheoli a’r effaith ar blant a phobl ifanc i wella eu hymateb i fenywod a phlant sy’n defnyddio’r llys teuluol.

*“...yr hyn sy’n digwydd dro ar ôl tro yw eu bod yn disgwyl i fenywod drafod gyda’u camdrinwyr eu hunain ar ôl byw gyda nhw mewn amgylchedd rhyfelgar, ac os na wnewch chi hyn cewch eich barnu gan asiantaethau am beidio rhywsut â gwneud yr hyn roedden nhw’n disgwyl i chi ei wneud.”*

## **11. Casgliad**

Mae llawer o waith arloesol yn cael ei wneud yng Nghymru gyda phlant a phobl ifanc i atal trais yn erbyn menywod (gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol).

Gobeithio y bydd y nodyn briffio hwn yn ganllaw defnyddiol i’ch helpu gydag integreiddio’r gwasanaethau atal hyn gyda gwaith ehangach sydd ar waith yng Nghymru, yn benodol yn ymwneud â beichiogrwydd ac iechyd a lles plant a phobl ifanc, ac addysg mewn ysgolion a’r gymuned ehangach ar faterion yn ymwneud â pherthnasoedd iach.

Mae buddsoddi mewn gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod i gynorthwyo’r gwaith ataliol hwn gyda phlant a phobl ifanc yn ystyriaeth hanfodol wrth symud ymlaen, gan y gall helpu i gefnogi a chryfhau ymatebion ehangach (fel gwaith sy’n digwydd ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a llesiant cenedlaethau’r dyfodol ac ati). Bydd y cyfleoedd ar gyfer partneriaethau gyda goroeswyr a phlant a phobl ifanc hefyd yn parhau i ychwanegu gwerth at y gwaith hwn yn y dyfodol ac yn ein helpu ni yn y pen draw i gyflawni Cymru sy’n wirioneddol rydd o drais a cham-drin.

*Bydd Cymorth i Ferched Cymru yn parhau i weithio i wella diogelwch plant sydd wedi profi cam-drin domestig a mathau eraill o drais yn erbyn menywod drwy weithio gyda goroeswyr a'u plant i gael gwrandawriad i'w lleisiau. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu gwestiynau am y nodyn briffio hwn, mae croeso i chi gysylltu â:*

**Christina Parker**

Swyddog Datblygu Gwasnaethau Plant a Phobl Ifanc

[ChristinaParker@welshwomensaid.org.uk](mailto:ChristinaParker@welshwomensaid.org.uk)

02920541551